

Pecyn Cymorth



Cynnwys



03 Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol

11 Cwestiynau Cychwynnol

04 Cymru Ein Dyfodol: Diben

15 Ymweld â'ch ardal

05 Sut y gallwch ymgyfrannu

16 Llwyfan y Bobl

07 Ymgyfraniad

17 Adnoddau Ychwanegol

08 Y Pecyn Cymorth

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae cynhyrchu Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn un o fy nyletswyddau statudol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rhaid i mi roi cyngor am y gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus fod yn eu gwneud er mwyn gosod a chyflawni'r amcanion llesiant, sef yr ymrwymïadau sy'n rhaid iddynt eu gwneud i wella economi, cymdeithas, amgylchedd a diwylliant eu hardal yn y dull mwyaf effeithlon o dan y gyfraith honno. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y cynnydd a wnaethpwyd hyd yn hyn a beth ddylai ddigwydd yn y dyfodol. Gellir dod o hyd i restr gyflawn o ofynion ar gyfer yr Adroddiad o dan Adran 23 o'r ddeddfwriaeth.

Bydd fy Adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym Mai 2020. Mae'r Ddeddf yn gosod yr amseriad yn fwriadol cyn etholiadau cenedlaethol a lleol, fel y gall drwytho dadl gyhoeddus a maniffestos gwleidyddol.

Rwy'n ei weld fel cyfle gwych i ddatblygu maniffesto cydweithredol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru ac rwy'n dymuno ennyn ymgyfraniad pobl a sefydliadau ledled Cymru.

Rwyf eisoes wedi bod yn siarad â phobl a chasglu gwybodaeth i'w gynnwys yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ers i mi gael fy mhenodi yn 2016. Ond mae yna ragor i'w wneud. Mae'r ddogfen hon yn nodi cyfleoedd sydd ar fin ymddangos i gyfrannu tuag at fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a llunio'r sgwrs am yr hyn yr ydym yn dymuno ei weld yn digwydd: Cymru Ein Dyfodol.



Cymru Ein Dyfodol: Diben

Yn ychwanegol at fanteisio ar y gwaith ymgyfrannu eang yr ydym wedi ei wneud yn ddiweddar, rwyf wedi casglu at ei gilydd nifer o fentrau newydd, fel y gallwch chithau ymgyfrannu. Mae'r cyfleoedd hyn wedi eu casglu o dan yr enw 'Cymru Ein Dyfodol'.

I gyflawni dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, credaf fod angen cynorthwyo gweledigaeth genedlaethol ar y cyd. Rwy'n dymuno adeiladu ar lwyddiannau'r sgysiau ar 'Y Gymru a garem' lle gwnaeth cymunedau ledled Cymru berchnogi'r ymgyfraniad, gan godi eu lleisiau a chyflwyno eu safbwyntiau, a fu'n sylfaen i'r ddeddfwriaeth.



Mae Cymru Ein Dyfodol yn barhad o'r mudiad hwnnw, a fydd yn rhoi i sefydliadau, grwpiau ac unigolion ym mhob sector yng Nghymru, y cyfle i drafod materion sydd o bwys iddynt, ac a fydd yn cynorthwyo a thrwytho maniffesto ar y cyd, yn y cyfnod yn arwain i fyny at etholiadau lleol a chenedlaethol.

Byddaf yn defnyddio fy Adroddiad i amlygu'r prif faterion sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol ac yn gwneud argymhellion am yr hyn y dylai pleidiau gwleidyddol, cyrff cyhoeddus ac eraill ei wneud, i fynd i'r afael â'r materion allweddol hyn i wella ein dyfodol.

Rydyn ni'n dymuno i eraill ledled Cymru gyfrannu at a chynorthwyo ei gasgliadau a'i negeseuon, wrth i ni alw ar y cyd, nid yn unig ar arweinwyr gwleidyddol, ond ar bawb i osod llesiant cenedlaethau ein dyfodol wrth galon yr hyn a wnânt.

Sut y gallwch ymgyfrannu

Mae yna lawer o wahanol ddulliau o ymgyfrannu. Rwyf wedi paratoi 'pecyn cymorth' ac adnoddau y gallwch eu defnyddio yn eich sgysiau chi eich hunain a'u bwydo yn ôl i mi wrth i mi ysgrifennu fy Adroddiad. Byddai'n wych petaech yn medru ennyn, wrth ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn, ymgyfraniad eich cymuned, cydweithwyr ac aelodau yn ogystal ag aelodau o'ch teulu a ffrindiau yn ystod eich cyfarfodydd a'ch digwyddiadau arferol. Buaswn yn croesawu argymhellion pellach a syniadau am y modd yr hoffech gynorthwyo'r gwaith hwn, o'i gynnwys i'w ddarpariaeth.

Mae'r pecyn cymorth wedi cael ei ddylunio fel y gallwch ei ddefnyddio gyda nifer o gynulleidfaoedd gwahanol yn cynnwys pobl iau a phobl hŷn. Os yr ydych angen y rhain mewn fformat arbennig, gadewch i ni wybod. Rydyn ni wedi creu fideo, a fideo BSL hefyd, ar gyfer eu defnyddio gan y cyhoedd. Gallwch ddewis pa adnodd sy'n gweithio orau i chi a'ch grwpiau. Os oes unrhyw beth arall yr ydych angen ei wybod os gwelwch yn dda rhowch wybod i ni.

Mae'r Pecyn Cymorth yn cynnwys:

- 1 Cyfres o 'gwestiynau cychwynnol'
- 2 Cyflwyniad
- 3 Cwis
- 4 Taflenni briffio ar fy meysydd ffocws
- 5 Adnoddau y gellir lawrlwytho



Sganiwch yma am gyflwyniad i 'Cymru Ein Dyfodol' mewn BSL

Rydym hefyd wedi creu pecyn cymorth i ysgolion. Gallwch ddod o hyd iddo yma.

Cyfleoedd eraill

Rydyn ni hefyd yn llunio cyfleoedd eraill i ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau yn y sgysiau hyn, yn cynnwys defnyddio Bardd Preswyl, creu pecynnau ysgol, syrjeris mewn archfarchnadoedd a gohebwy'r ifanc. Byddwn yn cynnwys yr holl wybodaeth ar ein gwefan! Byddwn yn gweithio'n agos gyda Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i weld beth yw rol sefydliadau gwirfoddol mewn cyflawni Cymru Ein Dyfodol.

Rydyn ni hefyd yn awyddus i chi rannu ac anfon unrhyw adroddiadau data neu ganlyniadau ymarferion ymgysylltu atom, i drwytho ein hadroddiad yn well. Gallwch anfon y rhain at contactus@futuregenerations.wales



Ymglyfraniad

Mae'n rhaid i mi adrodd am y cyfnod rhwng 2017 a 2020 ac mae'n rhaid i mi ymgynghori â gwahanol randdeiliaid o dan y gyfraith:


- Panel Ymgynghori'r Comisiynydd
- Pob Corff Cyhoeddus
- Cynrychiolwyr sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru
- Unrhyw berson arall a ystyrir gan y Comisiynydd fel un sy'n cymryd camau (neu'n dymuno cymryd camau) a allai gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant
- Cynrychiolwyr personau sy'n byw ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru
- Cynrychiolwyr personau sy'n rhedeg busnes yng Nghymru
- Undebau Llafur sy'n cynrychioli gweithwyr yng Nghymru
- Unrhyw berson arall a ystyrir gan y Comisiynydd fel un priodol ar gyfer sicrhau bod buddiannau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu cynrychioli'n llawn.

Mae fy nhîm a minnau'n dymuno ehangu ein cysylltiadau i'r eithaf ac rydyn ni eisoes wedi ymgysylltu â chyrrff cyhoeddus (arweinwyr a staff rheng flaen) grwpiau cymunedol, busnesau ac unigolion ledled Cymru a thu hwnt i ddarganfod beth sy'n newid.

**Dewch i greu'r
dyfodol gyda'n gilydd**

Y Pecyn Cymorth

Y Nodau Llesiant Cenedlaethol



Diffiniadau

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Cwestiynau cychwynol

I gychwyn y sgwrs, mae yna rai cwestiynau y byddai'n ddefnyddiol i glywed eich barn arnynt, a rhannu'r rhain gyda'ch cydweithwyr, ffrindiau ac aelodau. Gallwch ddod o hyd i'r cwestiynau'n llawn yma. Lle bo'n bosib, cwblhewch yr atebion yn llawn arlein. Ond os ydych yn dymuno cwblhau'r atebion ar bapur, danfonwch y ffurflen isod drwy ebost: cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

Mae'r cwestiynau wedi'u rhannu i ddwy adran. Mae Adran A wedi'i dargeddu at y profiadau yr ydych wedi'i brofi. Mae Adran B wedi'i anelu at y faterion sydd yn ein wynebu yn y dyfodol.

Cliciwch yma i ateb y cwestiynau ar Lwyfan y Bobl.



Bydd eich stori/ ateb yn aros yn ddiennw ond fe ellir ei defnyddio/rhannu'n gyhoeddus fel data agored, os gwelwch yn dda peidiwch â rhannu gwybodaeth bersonol megis enwau yn eich ymateb. Ar ddiwedd yr arolwg gofynnir i chi a hoffech rannu eich manylion cyswllt, os dewiswch wneud hynny, cânt eu defnyddio'n unig i gysylltu â chi mewn perthynas â'ch ymateb, a ni cânt eu rhannu â thrydydd parti. Bydd manylion cyswllt hefyd yn cael eu hychwanegu at ein rhestr gysylltiadau pan fydd ymatebwyr yn dewis ymuno. Bydd data dienw'r arolwg yn cael ei gadw ar gyfer dadansoddi data am gyfnod amhenodol o amser (hyd nes na fydd ei angen arnom mwyach). Mae gennych yr hawl i adael y prosiect ar unrhyw adeg ac, os byddwch yn penderfynu nes ymlaen i gael eich data wedi ei ddileu neu os oes gennych unrhyw bryderon, os gwelwch yn dda cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data ar contactus@futuregenerations.wales. Os yr ydych yn dal yn anhapus, mae gennych yr hawl i godi eich pryderon gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru, 2ail lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH.

Caiff pob gwybodaeth ei thrin a'i storio yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR 2018).

Adran A) **Nawr**

1

Dywedwch wrthym am fater sydd o bryder i chi. (Peidiwch a defnyddio enwau go-iawn o bob yn eich ymateb)

2

Rhowch deitl i'ch stori

3

A yw eich stori yn ymwneud ag unrhyw un o'r categorïau isod. Ticiwch pob un sy'n berthnasol:

- Bioamrywiaeth a Natur
- Newid yn yr Hinsawdd
- Amaeth
- Gwastraff ac Ailgylchu
- Dwr ac Ansawdd Aer
- Swyddi
- Busnes
- Addysg a Sgiliau
- Iechyd Meddwl
- Iechyd Corfforol
- Chwaraeon a Hamdden
- Trafnidiaeth
- Cynllunio
- Tai
- Seilwaith
- Caffael
- Yr Iaith Gymraeg
- Celfyddydau
- Diwylliant
- Cydraddoldeb
- Tlodi
- Gwirfoddoli
- Cymunedau
- Rhyngwladol
- Gwleidyddiaeth
- Cysylltiadau

4

Yn seiliedig ar yr hyn yr ydych wedi ei ddweud wrthym, gan feddwl ymlaen at y dyfodol, pa wahaniaeth hoffech chi ei weld?

Adran B) **Y Dyfodol**

1

Beth yw eich pryderon mwyaf pwysig ar gyfer y dyfodol? (Peidiwch a defnyddio enwau go-iawn o bob yn eich ymateb)

2

Rhowch deitl i'ch stori

3

A yw eich stori yn ymwneud ag unrhyw un o'r categorïau isod. Ticiwch pob un sy'n berthnasol:

- Bioamrywiaeth a Natur
- Newid yn yr Hinsawdd
- Amaeth
- Gwastraff ac Ailgylchu
- Dwr ac Ansawdd Aer
- Swyddi
- Busnes
- Addysg a Sgiliau
- Iechyd Meddwl
- Iechyd Corfforol
- Chwaraeon a Hamdden
- Trafnidiaeth
- Cynllunio
- Tai
- Seilwaith
- Caffael
- Yr Iaith Gymraeg
- Celfyddydau
- Diwylliant
- Cydraddoldeb
- Tlodi
- Gwirfoddoli
- Cymunedau
- Rhyngwladol
- Gwleidyddiaeth
- Cysylltiadau

4

Yn seiliedig ar yr hyn yr ydych wedi ei ddweud wrthym, gan feddwl ymlaen at y dyfodol, pa wahaniaeth hoffech chi ei weld?

Eich manylion

1

Beth yw eich rhywedd?

Gwrywaidd

Benywaidd

Arall

Gwell gen i
beidio dweud

2

Beth yw eich oedran?

Dan 16

18-24

35-50

Over 65

16-17

25-34

50-65

Gwell gen i beidio
dweud

3

Beth yw 4 nod cyntaf eich cod post?

4

Eich manylion cyswllt os yr ydych yn dymuno cadw mewn cysylltiad (dewisol)

Hoffwn dderbyn Cylchlythyr Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Hoffwn gael cynnig y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill a gynigir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ymweld â'ch Ardal

Bydd aelodau fy nhîm yn mynd i wahanol rannau o Gymru o Fai 2019 hyd Dachwedd 2019. Gadewch i ni wybod os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu un o'n sesiynau drwy gofrestru ar y ddolen hon. Mae croeso i bawb, pa beth bynnag eu cefndir. Rydyn ni'n bwriadu cydlynu ein hymweliadau â byrddau gwasanaethau cyhoeddus a'n hymweldiadau â grwpiau lleol i ddeall 'profiad bywyd' ein gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â pholisi a strwythurau. Gallwch hefyd ddod o hyd i ni yn yr Eisteddfod Genedlaethol (9fed a 10fed Awst, Llanrwst).

Gellir cael mwy o wybodaeth ar ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol.



Llwyfan y Bobl



Nid oes rhaid i chi aros i'n gweld yn bersonol i adrodd eich stori; mae Llwyfan y Bobl eisoes ar waith ac yn rhoi cyfle i chi rannu eich storïau a'ch syniadau. Mae'r llwyfan hwn sy'n casglu storïau, a sefydlwyd gennyf yn 2017, yn rhoi cyfle i bobl ledled Cymru rannu eu profiadau, eu meddyliau, heriau a datrysiadau ar chwe maes blaenoriaeth y Comisiynydd ac yn ehangach.

Buasem yn ddiolchgar iawn petaech yn cwblhau a rhannu dolenni i'r llwyfan hwn mor eang â phosibl. Mae'r data'n agored ac ar gael i chi i edrych arno yn ôl cod post. Diolch i'r rhai hynny ohonoch sydd eisoes wedi ein helpu i'w hybu ac os gwelwch yn dda parhewch i siarad am fy llwyfan ar eich paneli dinasyddion, rhwydweithiau ac â'ch cydweithwyr. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y llwyfan hwn, os gwelwch yn dda gadewch i ni wybod.

Adnoddau defnyddiol

Rwy'n annog sefydliadau ac unigolion i ymgyfrannu. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cymryd rhan, os gwelwch yn dda gadewch i mi wybod gan y buaswn yn awyddus iawn i'ch cynorthwyo os gallaf.

Gallech (er enghraifft):

Gynnal Digwyddiad	Bord gron/gweithdy/ cyfarfod agored.
Ofyn fy nghwestiynau cychwynnol:	Mewn digwyddiad/mewn cylchlythyr/ar gyfryngau cymdeithasol.
Ddefnyddio Llwyfan y Bobl	Ei gwblhau/rhannu'r ddolen/annog pobl eraill i gyfrannu
Ymweld â'n gwefan:	Am yr wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith neu i ddysgu mwy am y prosiect!

Os yr ydych wedi cynnal digwyddiad, os gwelwch yn dda gadewch i ni wybod pryd, ble a gyda phwy, a faint o bobl oedd yn bresennol. Os gwelwch yn dda rhowch gofnod o'r sgwrs ar Llwyfan y Bobl lle mae hynny'n briodol.

Lawrlwythwch yr adnoddau yma.



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

